www.mantellgwynedd.com

MANTELL GWYNEDD

NEWYDDLEN MUDIADAU GWIRFODDOL GWYNEDD

Rhifyn 41
Ebrill/Mai 2008

CYNNWYS

Newyddion 2
Plant a Phobl Ifanc 4
Cymunedau'n Gyntaf 5
Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles 5
Digwyddiadau a Hyfforddiant 6
Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd 7
Grantiau 8

Mwy o wybodaeth ynghyd â'r newyddion diweddaraf i'w gael ar ein gwefan!

Cynhadledd Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd

Keith Towler a Val Owen yn trafod cynnwys y rhaglen!

Cynhaliwyd cynhadledd lwyddiannus o Fforwm Plant a Theuluoedd Gwynedd yng Ngwesty Gwledig Meifod ar Ebrill y 15fed, 2008. Trefnwyd y digwyddiad gan y Fforwm mewn cydweithrediad â Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc, Mantell Gwynedd. Estynnwyd gwahoddiad i weithwyr o fudiadau a sefydliadau pob sector a chafwyd croestoriad eang a difyr o gynrychiolwyr yn mynychu

Y siaradwr gwadd oedd Keith Towler, Comisiynydd Plant Cymru. Mae'r Comisiynydd yn ei swydd ers cwta saith wythnos ac yn awyddus i adeiladu ar y seiliau cadarn a osodwyd gan ei ragflaenydd. Rhoddodd eglurhad o swyddogaeth Comisiynydd Plant ac amlinellodd y prif amcanion y byddai'n gweithredu arnynt yn rhinwedd ei swydd. Tynnwyd ei sylw at nifer o broblemau a wynebir gan fudiadau lleol. Yn arbennig nodwyd bod plant a phobl ifanc mewn sir wledig fel Gwynedd yn aml yn cael eu hamddifadu o gyfleodd a gwasanaethau oherwydd cyfyngiadau economaidd yn deillio o natur wledig y sir.

Yn ystod y Gynhadledd cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol y Fforwm. Nod ac amcanion y Fforwm yw gwella addysg a lles plant a phobl ifanc yng Ngwynedd drwy gynnig cefnogaeth i weithwyr yn y maes.

Keith Towler

Cyflawnir hyn drwy rannu gwybodaeth, trefnu cyfarfodydd cyson a chynnal hyfforddiant. Mae aelodaeth o'r Fforwm yn agored i unrhyw unigolyn, grŵp neu fudiad sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Ngwynedd ac mae'n rhad ac am ddim.

Trefnwyd dau weithdy fel rhan o'r gynhadledd. Yn gyntaf cafwyd cyflwyniad ar waith CAMHS gan Irfon Williams. Roedd y cyflwyniad yn agoriad llygaid i ran fwyaf o fynychwyr y gynhadledd. Nod y tîm yn CAMHS yw dileu'r stigma o gwmpas iechyd Meddwl a chodi ymwybyddiaeth o'r cymorth sydd ar gael pan fo unigolyn yn wynebu neu'n debygol o wynebu problemau iechyd meddwl o ganlyniad i nifer o ffactorau e.e. camdriniaeth, bwlio, marwolaeth teuluol ayb. Mae cyfres o weithdai ar gyfer ddisgyblion blwyddyn 8 ysgolion uwchradd y sir eisoes ar y gweill fel rhan o'r gwaith yma.

Cyflwynwyd gweithdy gan Val Owen, Cadeirydd y Fforwm, ar Ganllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008. Yn y drafodaeth i ddilyn daeth yn eglur bod angen mwy o hyfforddiant a chefnogaeth i weithwyr ar sut i weithredu'r canllawiau o ddydd i ddydd. Roedd hefyd yn amlwg nad oedd pawb sy'n gweithio ym maes plant a phobl ifanc yn ymwybodol o'r newidiadau i'r canllawiau. Bydd y sylwadau a gasglwyd yn cael eu cyflwyno i'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant gan Ann Vaughan Jones, yr Hwylusydd Plant a Phobl Ifanc, sy'n cynrychioli'r Trydydd Sector ar y Bwrdd.

Diolch yn fawr iawn i bawb a fynychodd a chefnogi'r digwyddiad!

Am fwy o wybodaeth am y pynciau a drafodwyd yn y gynhadledd ac am weithgareddau'r Fforwm cysylltwch ag **Ann Vaughan Jones neu Audra Roberts ar 01286 672626.**

Irfon Williams

Swyddfa Gofrestredig: 24-26 Stryd Fawr • CAERNARFON • LL55 1RH. (01286 672626 • 7: 01286 678430
Swyddfa Gofrestredig: Yr Hen Orsaf Heddlu • Y Lawnt • DOLGELLAU • LL40 1SB. (01341 422575 • 7: 01341 422147
E-bost: ymholiadau@mantellgwynedd.com • Gwefan: www.mantellgwynedd.com

Elusen Gofrestredig: 1068851 • Cwmni Trwy Warant: 3420271 • Cofrestrwyd yng Nghymru
Cyhoeddir MANTELL gan Mantell Gwynedd. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn Mantell o angenrheidrwyddyn adlewyrchu barn Mantell Gwynedd. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi.

Nodyn gan y Prif Swyddog

Pleser oedd cadeirio cyfarfod Rhwydwaith Iechyd Gofal a Lles Gwynedd yng Nghanolfan Hamdden Glaslyn ym Mhorthmadog ddiwedd mis Mawrth. Mae bob amser yn braf mynd allan i gyfarfod pobol 'go iawn' a chael fy atgoffa o beth sy'n digwydd 'ar y ddaear' fel petai.

Yn fy swydd i y dyddiau yma mae'n hawdd mynd ar goll mewn mynyddoedd o gyfarfodydd gyda theitlau crand, yn 'fyrddau' hyn llall ag arall, a chyfarfodydd 'strategol' ar gyfer rhywbeth neu'i gilydd. Weithiau mae rhywun yn colli golwg ar be sy'n digwydd yn y byd go iawn a be rydan ni yn drio ei gyflawni fel Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol yng Ngwynedd. Felly chwa o awyr iach oedd cael cadeirio y Rhwydwaith Iechyd diwethaf.

Pleser oedd croesawu gwleidyddion atom i'r drafodaeth, yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas a hefyd Alun Ffred. Mae'n bwysig fod y gwleidyddion yn trafod gyda'r Sector, yn clywed ein negeseuon yn glir, a'u bod mewn sefyllfa wedyn i fynd a'r negeseuon allweddol bwysig hynny yn ôl i'r Cynulliad. Felly 'roedd y Rhwydwaith Iechyd yn gyfle ardderchog i wyntyllu materion o bryder yn y maes Iechyd Gofal a Lles yng Ngwynedd.

Cawsom gyflwyniad difyr hefyd gan Grace Lewis Parry, Prif Weithredwraig y Bwrdd Iechyd Lleol. Mae gan Mantell Gynedd berthynas agos gyda'r Bwrdd Iechyd ac 'rydym yn ddiolchgar am eu cefnogaeth cyson i'r Sector yng Ngwynedd. 'Roedd yn gyfle hefyd i holi a thrafod gyda Gwen Carrington, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd.

Bu'r cyfarfod Rhwydwaith hwn fis Mawrth yn un llwyddiannus dros ben a gwnaethpwyd sylwadau eithriadol bwysig ynddo. Diolch i bawb fynychodd, i'r rhai gymerodd rhan, ac i'r rhai fu'n gyfrifol am y trefniadau.

Mae'r Grŵp Cyswllt ar ei newydd wedd gyda'r aelodau etholedig newydd o'r Trydydd Sector wedi cyfarfod am yr ail waith erbyn hyn. 'Rwy'n crybwyll y Grŵp Cyswllt yn y golofn y tro yma am fy mod yn teimlo fod na gamau allweddol bwysig wedi eu cymryd yn ddiweddar trwy gyfrwng y Grŵp Cyswllt. Yn gyntaf mae'r Compact (sef y cytundeb rhwng Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yng Ngwynedd) wedi ei ddiwygio a bydd yn dod allan atoch ar gyfnod o ymgynghori. Mae'r compact yn gosod allan, ar ddu a gwyn, yr hyn mae Cyngor Gwynedd a'r Trydydd Sector yn ymrwyno i wneud, sut y bwriadwn gydweithio dros y blynyddoedd nesaf a beth yr ydym yn anelu at ei gyflawni gyda'n gilydd. Mae'n holl bwysig eich bod yn ymateb i'r yngynghoriad pan ddaw atoch yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r berthynas hon rhwng y ddwy Sector yn allweddol bwysig i'w chael yn iawn. Croesawn eich sylwadau. Yn ail, mae'r Grŵp Cyswllt bellach wedi cytuno y bydd yn derbyn manylion iawn unrhyw doriadau arfaethedig o gyfeiriad y Cyngor (ar ffurf Cytundebau Lefel Gwasanaeth i'r Sector) mewn digon o bryd i fedru rhoi tystiolaeth cyflawn at ei gilydd i sicrhau fod manylion llawn ar gael cyn i unrhyw doriad ddigwydd. Dyma gam arall pwysig a bydd yn rol allweddol bwysig i'r Grŵp Cyswllt. Yn dilyn toriadau sylweddol i'r Trydydd Sector dros y flwyddyn ddiwethaf 'roedd hwn yn gam y teimlwyd fod wir angen ei gymryd .

Wrth gloi, ac fel mae'r newyddlen yma yn mynd i'r wasg, mae etholiadau lleol ar y gorwel. Yn bersonol 'rwy'n croesawu gweld ymgyrchu brwd yn y sir. Waeth beth yw ein daliadau gwleidyddol mae gweld herio seddi i'r graddau a welwn yng Ngwynedd eleni yn dystiolaeth o ddemocratiaeth ar waith. Mae hynny yn gorfod bod yn beth da. Ond cofiwch da chi, pan ddaw y gwleidyddion lleol 'ma atoch i fegeran pleidlais - gofynnwch wrthynt beth yw pwysigwydd y Trydydd Sector yng Ngwynedd, beth yw gwerth economaidd y Trydydd Sector yn y sir a pha gymaint yn dlotach fyddai Gwynedd heb y Trydydd Sector? Manteisiwch ar y cyfle yma i godi ymwybyddiaeth ymgeiswyr am waith y Trydydd Sector yn y sir!

Hwyl am y Tro!

Bethan

Canllaw Online

Offer Technoleg Ddigidol

Kevin Jones yw'r cywllt os ydych chi â diddordeb mewn cael gafael ar offer digidol at ddefnydd pobl ifanc a'r gymuned gyfan yn eich ardal chi. Mae'n chwilio am bartneriaid sydd a diddordeb mewn cael Labdigi sy'n cynnwys technoleg fodern fel bandllydan, camerau digidol ac ati. Eisoes llwyddwyd i sefydlu 112 Labdigi o dan cyn-gynllun Credu, ac mae Canllaw Online gyda'u partneriaid FUJITSU yn ceisio sicrhau cyllid ar gyfer prosiect pellach. Os oes gennych ddiddordeb cysylltwch â Kevin ar **kevinjones@canllaw-onlin-e.com** neu **01766 762532**

CIL DE GWYNEDD

Hedd Thomas ydy'r swyddog newydd sydd wedi'i benodi i gynorthwyo CIL i greu cynllun strategol fydd yn eu galluogi i ddatblygu a dod yn gynaladwy i'r dyfodol. Mae Hedd yn enedigol o Bwllheli ond wedi bod yn gweithio dramor yn Kenya ers dros ugain mlynedd fel gweithiwr datblygu. Meddai Diane Durrant, Cadeirydd CIL, *"We've been very fortunate to be able to appoint such a competent worker, we are all much more positive about our long term future since Hedd's been here."* **Mae CIL De Gwynedd yn Ganolfan Byw'n Annibynnol ar gyfer pobl gydag anableddau, wedi'i lleoli ym Mhorthmadog.**



Hedd Thomas yn y swyddfa ym Mhorthmadog

www.ctxchange.org

Os ydych chi'n elusen, mae meddalwedd cyfrifiadurol rhad ar gael o dan y rhaglen yma 'Charity Technology Exchange'. Y gost yw'r gost gweinyddu'n unig a gallwch gael rhaglenni 90% yn rhatach.

I lawrlwytho copi o newyddion a gwybodaeth ddiweddaraf i Gymru gan:
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA) ewch i'r adran Newyddion ar wefan Mantell Gwynedd - **www.mantellgwynedd.com**

BBC Cymru Wales

YDY'CH ELUSEN CHI ANGEN CYRRAEDD MWY O BOBL?

Mae BBC Cymru Wales yn newid arddull darllediadau elusennol, gan wneud cyfleoedd darlledu i elusennau yng Nghymru yn fwy effeithiol.

Bob blwyddyn mae BBC Cymru Wales yn cynnig y cyfle i elusennau Cymreig gyrraedd cynulleidfa ehangach a thynnu sylw at eu gwaith ar-lein, ar y radio a'r teledu.

Gall y darllediadau yma bwysleisio ymgyrch benodol, mater neu unrhyw anghenion sydd gan eich sefydliad - neu'n syml roi gwybod i'r rheini sydd angen eich gwasanaeth ble y dylent fynd am gymorth.

I ddarganfod sut y gallech gael eich ystyried ar gyfer darllediadau yn y dyfodol cysylltwch â'r Swyddfa Darllediadau Elusennol, Ystafell M1010, Y Ganolfan Ddarlledu, Llandaf, Caerdydd, CF5 2YQ. Ffôn 029 2032 2094 neu gweler bbc.co.uk/walescharities

***BBC Cymru Wales** - Yn Gweithio gyda Elusennau Cymru*

Ffair Arianwyr

Gorffennaf 1af 2008

Mynydd Gwefru - Llanberis

Gall prosiect sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd fod yn ddeniadol i gyllidwyr.

Cyfle unigryw i gael sgwrs am Grantiau'r WCVA, Cyngor Gwynedd, CAE a'r Parc Cenedlaethol, Energy Saving Trust, Y Loteri, Cyngor Chwaraeon Cymru, Cadw Cymru'n Daclus, Mantell a mwy...

Archebwch le trwy gysylltu â **Mantell Gwynedd.**

PROSIECT CYMDOGION DA
Dinas Bangor

Mae Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol y Merched yn rheoli rhodd a adawyd iddynt gan Iris Parry, a fu'n Faer Dinas Bangor, er budd pobl oedd yn derbyn Pryd ar Glud ym Mangor. Gadawyd y rhodd er mwyn cynnig cysuron ychwanegol i bobl sy'n gaeth i'w cartrefi yn Ninas Bangor. Gan nad yw'r WRVS yn darparu gwasanaeth Pryd ar Glud yn ardal Bangor bellach, penderfynwyd y dylai'r arian fynd tuag at brosiect newydd a fyddai'n agored i holl bobl Bangor sydd dros 60 oed. Felly, defnyddiwyd gweddill y rhodd i dalu am Brosiect Cymdogion Da Dinas Bangor gyda'r nod o gadw'r cleientiaid yn annibynnol ac yn byw gartref am fwy o amser, gan leihau'r angen i ddefnyddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a rhoi iddynt y gefnogaeth a'r cwmni y mae arnynt eu hangen.

Bydd y cynllun newydd hwn yn helpu WRVS i gyflawni ei genhadaeth o "helpu pobl i gadw'u hannibyniaeth a'u hurddas yn eu cartrefi a'u cymunedau, yn enwedig wrth fynd yn hyn". Trwy gynnig cymorth lefel isel i bobl hyn agored i niwed sydd mewn perygl o golli eu hannibyniaeth, bydd y prosiect hwn yn eu cefnogi yn eu cartrefi ac yn eu helpu i gymryd mwy o ran ym mywyd y gymuned. Prif nod y prosiect yw denu a hyfforddi gwirfoddolwyr i ymweld â chleientiaid yn eu cartref, gan dreulio amser yn sgwrsio ac yn dod yn ffrindiau. Bydd y gwirfoddolwyr yn gwneud tasgau bychain hefyd, fel helpu'r cleientiaid i siopa, garddio a gwneud tasgau bach o gwmpas y cartref yn dibynnu ar anghenion y cleient. Yn ogystal, bydd y gwirfoddolwyr yn helpu'r cleientiaid i chwilio am wybodaeth ac yn sôn wrthynt am asiantaethau addas a allai gynnig gwasanaethau eraill iddynt o bosib.

Mae'r WRVS yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Gwynedd sydd wedi darparu arian i gynnwys gwasanaeth ffrind ffôn yn rhan o'r prosiect. Lansiwyd gwasanaeth ffrind ffôn tebyg gan y WRVS ar Ynys Môn yn ddiweddar gyda chymorth ariannol gan Gyngor Ynys Môn. Mae gwirfoddolwyr yn cael eu cyflwyno i gleient ac yna'n eu ffonio o leiaf unwaith yr wythnos am sgwrs ac i wneud yn siwr eu bod yn iawn. Mae'r prosiect yn gweithio o Ganolfan Adnoddau Cymunedol Ty Cegin ar stad Maesgeirchen ym Mangor. Mae'r WRVS yn gweithio mewn partneriaeth â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf sy'n rheoli'r ganolfan. Rydym yn bwriadu cydweithio ag asiantaethau perthnasol eraill hefyd a fydd yn cyfeirio pobl at y prosiect. Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, fel gwirfoddolwr neu gleient, cysylltwch â mi yn y cyfeiriad isod:

Alex Proctor
Rheolwr Prosiect Cymdogion Da Dinas Bangor
Tŷ Cegin
Maesgeirchen
Bangor
LL57 1LR
Ffôn: 01248 352900
Ffôn poced: 07786 866 497

E-bost: Alexander.proctor@wrvs.org.uk

Y dyddiad cau ar gyfer derbyn gwybodaeth i rifyn nesaf o Mantell yw **20ed Mehefin, 2008**. Danfonwch neu e-bostiwch unrhyw wybodaeth at Beryl Norgrove yn swyddfa Dolgellau: **beryl@mantellgwynedd.com** ● **Ffôn: 01341 422575**

Gwirfoddolwyr Ifanc Llwyddiannau

James Matthew Whittaker yw'r person ifanc diweddaraf o Wynedd i dderbyn 'Gwobr Rhagoriaeth' dan gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.

Mae James yn ddisgybl yn y chweched dosbarth yn Ysgol Friars, a bu'n gwirfoddoli yn yr ysgol a gyda'r Urdd, Rhanbarth Eryri. Mae'n amlwg o beth oedd gan James i'w ddweud ei fod wedi mwynhau ei brofiad o wirfoddoli:-

"Roedd digon i'w wneud bob wythnos a chefais gyfarfod pobl ac ymweld â phentrefi ac aelwydydd gwahanol a newydd i mi. Mae'r profiad wedi rhoi hwb mawr i fy hyder."

Llongyfarchiadau mawr iddo a phob hwyl i'r dyfodol!

Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys

Gwirfoddolwyr ifanc fu ar gwrs Cymorth Cyntaf Brys a drefnwyd gan Mantell Gwynedd ar 13eg o Chwefror. Derbyniodd pob un ohonynt dystysgrif St John Cymru mewn Cymorth Cyntaf Brys sydd yn ddilys am dair mlynedd.

Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd

Cynllun Plant a Phobl Ifanc Proffilio Gwasanaethau

Mae'r Bartneriaeth wedi dosbarthu nifer o holidauron i fudiadau plant a phobl ifanc Gwynedd yn ddiweddar (yn cynnwys mudiadau'r Trydydd Sector) ar gyfer creu proffil o wasanaethau i blant a phobl ifanc y sir, fel rhan o'r broses o lunio **Cynllun Plant a Phobl Ifanc.**

Ydych chi wedi derbyn copi o'r holiadur ond heb ei yrru yn ôl eto? Ar gyfer creu proffil cywir o'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig o fewn y Sector a chael cydnabyddiaeth teg, dwi'n erfyn arnoch i geisio gyrru'r holiadur yn ôl mor fuan â phosib os gwelwch yn dda!

I gael cefnogaeth i gwblhau'r holiadur, cysylltwch ag Elfyn Jones ar **01286 679926**

Canllawiau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan 2008 Nodyn Atgoffa Brys!

I holl fudiadau PPI Trydydd Sector Gwynedd

Mae nifer fawr ohonoch dal heb gasglu'ch copiau o swyddfeydd Mantell Gwynedd.

Bydd disgwyl i ni fod yn rhoi adroddiad i'r **Bwrdd Lleol Diogelu Plant** yn fuan ar ddosbarthiad y Canllawiau o fewn y Sector!!

CPSG (Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol)

Galwad am sylwadau

Fel cynrychiolydd dros y **Rhwydwaith Plant a Theuluoedd** ar **Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**, fe all **Plant yng Nghymru** gynnig blaenoriaethau'r rhwydwaith i'w cynnwys ar yr agenda mewn cyfarfodydd **Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol**, yn ogystal â **Chyfarfodydd Gweinidogol**, cyn belled â'i fod yn fater y mae rhwydweithiau eraill yn y sector gwirfoddol yn cytuno arnynt.

Os oes gennych eitem/au yr hoffech eu cynnig, a fyddech cystal â'u hanfon at **sian.thomas@childreninwales.org.uk**. Fe ddylai eitemau fod yn **strategol**, ac yn **cofleidio ystod eang o ddiddordebau**. Fe ellir hefyd anfon sylwadau neu negeseuon drwy gyfrwng y negesfyrddau ar wefan Plant yng Nghymru **www.plantyngnghymru.org.uk**.

Negesfyrddau/Byrddau Trafod

Y mae gwefan Plant yng Nghymru yn cynnwys **Bwrdd Trafod** y gellir ei ddefnyddio i drafod materion polisi sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc. Y mae'r cyfleuster hwn ar gael i **aelodau Plant yng Nghymru yn unig** (**www.plantyngnghymru.org.uk**)

Mae plant yng Nghymru hefyd yn cynllunio digwyddiad yn ddiweddarach yn y flwyddyn ar gyfer mudiadau gwirfoddol sy'n gweithio ym maes plant er mwyn rhoi cyfle iddynt gael cyfarfod â hwy a Gweinidog dros Blant Llywodraeth Cynulliad Cymru i godi materion a chael trafodaeth am feysydd o gyd-ddiddordeb a chonsyrn,Cysylltwch â Sian Thomas **sian.thomas@childreninwales.org.uk** ynghylch yr hyn sydd o ddiddordeb i chi!

CYMUNEDAU NESAF

Fel y gwyddoch fel Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf mae newidiadau yn digwydd yn y rhaglen o Ebrill 2009 ymlaen. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cynnal cyfarfodydd ymgynghori ynglyn â hyn ac mae croeso i aelodau partneriaethau ymateb erbyn diwedd Ebrill 2008.

Er mwyn sicrhau fod cyfle i aelodau Partneriaethau Cymunedau'n Gyntaf Gwynedd drafod ac ymateb trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gan Swyddogion Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf, ar y cyd ac Eirian Pierce Jones o Rwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf.

Yn dilyn derbyn yr holl wybodaeth byddwn yn cynhyrchu adroddiad, gyda chopiau i bawb a fynychodd y cyfarfodydd. Bydd copiau hefyd yn cael eu gyrru i swyddfeydd Cymunedau'n Gyntaf ac i Leighton Andrews A.C., Dirprwy Weinidog Cyfadran Adfywio yn Llywodraeth y Cynulliad.

SAFON ANSAWDD TAI CYMRU

Yn 2002 cyflwynwyd Safon Ansawdd Tai Cymru newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Oherwydd fod ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf yn cynnwys tai Cyngor neu Gymdeithas Tai, yna mae'n debyg y bydd llawer o arian yn cael ei wario ar y stoc dai dros y blynyddoedd nesaf.

Mae modd i Bartneriaethau Cymunedau'n Gyntaf elwa o'r gwaith yma mewn nifer o ffyrdd. I gael mwy o wybodaeth ewch ar wefan Rhwydwaith Cefnogi Cymunedau'n Gyntaf **http://www.communitiesfirst.info/** i lawr lwytho'r ddogfen **'Mwy na Brics a Mortar'** sydd gyda'r arweiniad ar y mater yma.

Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles

MAWRTH 14, 2008

Cynhaliwyd Cyfarfod o Rwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ym Mhorthmadog ar Fawrth 14. Mynychodd mwy na 50 y digwyddiad a chafwyd cyflwyniadau gan Gwen Carrington, Pennaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Grace Lewis-Parry, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Gwynedd. Cadeiriwyd y cyfarfod gan Bethan Russell Owen, Prif Swyddog Mantell Gwynedd gyda chyfraniadau gan ddau Aelod o'r Cynulliad sef Alun Ffred Jones a'r Arglwydd Dafydd Elis Thomas.

Yn ail ran y cyfarfod cafwyd cyfle i fynd i grwpiau llai i drafod a chyflwyno materion penodol ym maes iechyd a gofal a fyddai angen ymateb gan yr asiantaethau statudol oedd yn bresennol, sef Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Gwynedd a'r Cynulliad. Bydd y materion a drafodwyd yn y grwpiau yn cael eu cyflwyno i'r asiantaethau priodol ac edrychwn ymlaen at ymateb gan bob un ohonynt.

Os oes gennych unrhyw syniadau ar gyfer cyfarfodydd Rhwydwaith mae croeso i chi gysylltu â Sioned ym Mantell Gwynedd ar 01286 672626 neu sioned@mantellgwynedd.com i drafod ymhellach.

Hyfforddiant/digwyddiadau Mantell i ddod:
(hefyd yn rhan o raglen 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)

EBRILL 2008

Paratoi ar Gyfer Gwirfoddolwyr (2 ddiwrnod)
Ebrill 29ain a 30ain 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Royal Sportsman, Porthmadog

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Creu Deunyddiau Marchnata a Chyhoeddusrwydd
Ebrill 30ain 2008
7:00 - 09:00y.h.
Gwesty Fron Oleu, Dolgellau

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

MEHEFIN 2008

Cyllid Benthyciadau
Mehefin 3ydd 2008
10.00y.b. - 4.00y.p.
Ty Siamas, Dolgellau

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Hyffordiant Technoleg Gwybodaeth
Mehefin 10fed 2008
9:30y.b. - 1:00y.p.
Canolfan Gymunedol, Talysarn

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

GORFFENNAF 2008

Ffair Arianwyr
Gorffennaf 1af 2008
11.00y.b. - 3.00y.p.
Mynydd Gwefru, Llanberis

MEDI 2008

Rôl Swyddogion Pwyllgor
Medi 18fed 2008
7:00 - 09:00y.h.
Eglwys Gatholig, De Pwllheli

Cost: - £10 Aelodau Mantell Gwynedd - £15 Di-aelod Sector Gwirfoddol - £40 Sector Preifat a Statudol.

Os hoffech drafod anghenion eich mudiad o ran hyfforddiant neu i gael rhagor o wybodaeth am yr hyfforddiant mae Mantell Gwynedd yn ei gynnig cysylltwch â: Mantell Gwynedd, Yr Hen Orsaf Heddlu, Y Lawnt, Dolgellau, Gwynedd LL40 1SB.
Ffôn: 01341 422575 neu dolgellau@mantellgwynedd.com

Rhaglen 'Cyrsiau i Gymunedau' (CCC)
CYRSIAU ERAILL AR DARWS GOGLEDD CYMRU

Hyfforddiant fforddiadwy ar gyfer grwpiau cymunedol a gwirfoddol a ddarperir drwy bartneriaeth rhwng Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGS), canolfannau gwirfoddolwyr a CGGC (WCVA)

Dyddiad	Lleoliad	CGS cyswllt	Hyd
Bwrw Iddi - Ffurfioli'ch mudiad			
7 Mai 08	Rhuthun	DVSC	1 diwrnod
Rhedeg Eich Mudiad - Gofalwch am eich mudiad			
4 Gorff 08	Bae Colwyn	CVSC	½ diwrnod
Rhedeg Eich Mudiad - Y cylch pwyllgorau			
5 Medi 08	Wrecsam	AVOW	½ diwrnod
Gweithio Gydag Eraill - O'r cynllunio i'r cyflwyno			
10 Gorff 08	Y Rhyl	DVSC	½ diwrnod
Gweithio Gydag Eraill - Rhwydweithiau, consortia a chynghreiriau			
11 Medi 08	Rhuthun	DVSC	½ diwrnod
Gweithio Gydag Eraill - Sgiliau ar gyfer negydu a dylanwadu			
25 Mehefin 08	Rhuthun	DVSC	1 diwrnod
Gwirfoddoli - Cyflwyniad i wirfoddoli			
23 Mehefin 08	Bae Colwyn	CVSC	½ diwrnod
Gwirfoddoli - Paratoi ar gyfer gwirfoddolwyr			
14/15 Mai 08	Yr Wyddgrug	FLVC	1½ diwrnod
Gwirfoddoli - Recriwtio, dethol a chynefino i wirfoddolwyr			
15, 16 a 18 Medi 08	Rhuthun	DVSC	2½ diwrnod
Ymddiriedolwyr - Cyflwyniad i fod yn ymddiriedolwr/aelod pwyllgor			
22 Medi 08	Yr Wyddgrug	FLVC	½ diwrnod
Ymddiriedolwyr - Llywodraethu			
24 Medi 08	Yr Wyddgrug	FLVC	½ diwrnod
Ymddiriedolwyr - Rolau a chyfrifoldebau			
25 Medi 08	Rhuthun	DVSC	½ diwrnod
Ymddiriedolwyr - Y Bwrdd ac is-bwyllgorau			
4 Mehefin 08	Wrecsam	AVOW	½ diwrnod
Ymddiriedolwyr - Gweithio gyda'r Prif Swyddog			
19 Mehefin 08	Rhuthun	FLVC	½ diwrnod
Cyflogi a Rheoli Pobl - Cynefino Staff			
26 Medi 08	Bae Colwyn	CVSC	½ diwrnod
Cyflogi a Rheoli Pobl - Cyfraith Cyflogaeth			
20 Mai 08	Llangefni	Medrwn Môn	1 diwrnod
Cyflogi a Rheoli Pobl - Goruchwylio ac arfarnu			
27 Mai 08	Llangefni	Medrwn Môn	1 diwrnod
Dod o hyd i Arian a'i Gael - Cynllunio busnes a chynllunio strategol			
16 Mai 08	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Dod o hyd i Arian a'i Gael - Grantiau addas ar gyfer arian			
19 Medi 08	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Dod o hyd i Arian a'i Gael - Rhoi a chodi arian gan y cyhoedd			
20 Mehefin 08	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Rheoli Arian - Elfennau cyfrifo sylfaenol			
5 Mehefin 08	Bae Colwyn	CVSC	1 diwrnod
Rheoli Arian - Cyfrifon ac archwiliad blynyddol elusen			
22 Mai 08	Wrecsam	AVOW	1 diwrnod
Marchnata a Hyrwyddo - Datblygu eich Cylchlythyr			
12 Medi 08	Yr Wyddgrug	FLVC	½ diwrnod

I wneud ymholiadau cyffredinol ynghylch rhaglen Cyrsiau ar gyfer Cymunedau Cymru, cysylltwch â **Lein Gymorth CGGC (WCVA)** ar **0800 2888329** neu **help@wcva.org.uk**

Sesiynau Hyfforddiant

Yn ystod yr wythnosau diwethaf, trefnwyd tri diwrnod o hyfforddiant gan Ganolfan Gwirfoddoli Gwynedd - pob un ohonynt am ddim i wirfoddolwyr.

1) **'Hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys'** - yn arbennig ar gyfer gwirfoddolwyr ifanc dan 25 oed. Yr hyfforddwraig oedd Beryl Williams o St John Cymru, a daeth 10 o bobl ifanc i Adeilad yr Institiwt yng Nghaernarfon ar 13eg o Chwefror i ddysgu sgiliau pwysig.

   Mae'n deg nodi fod Mantell Gwynedd wedi trefnu 3 cwrs Cymorth Cyntaf Brys yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol. Trwy gydweithrediad hyfforddwyr o St John Cymru, mae 41 o wirfoddolwyr wedi manteisio ar y cynnig i ddysgu sgiliau cymorth cyntaf, ac maent oll wedi derbyn Tystysgrif Cymorth Cyntaf Brys sydd yn ddilys am 3 blynedd.

2) **'Sut mae pobl eraill yn eich gweld chi?'** oedd teitl y cwrs a drefnwyd ym Mhorthmadog ar 18fed o Fawrth. Sarah Richards a Huw Thomas o gwmni hyfforddiant Sglein oedd yr hyfforddwyr, a chafwyd diwrnod difyr ac addysgiadol yn eu cwmni.
3) **'Sgiliau Gwrando i Wirfoddolwyr - cyflwyniad elfennol i sgiliau cwnsela'** oedd y trydydd cwrs yn y gyfres, gyda Mrs Lynne Edwards yn arwain yr hyfforddiant. Daeth 15 o wirfoddolwyr i Adeilad yr Institiwt yng Nghaernarfon dydd Iau, 27ain o Fawrth.

Dyma rai o sylwadau a dderbyniwyd gan wirfoddolwyr fu ar y cyrsiau:

- Cyflwyniad ardderchog ac ysbrydoledig, gyda thaflenni gwybodaeth defnyddiol.
- Diddorol iawn - wedi ei gyflwyno yn dda, ac yn berthnasol iawn.
- Diwrnod da - wedi dysgu llawer
- Llawn hwyl
- Diddorol a hwyliog.

Beryl Williams yn rhoi hyfforddiant Cymorth Cyntaf Brys i'r bobl ifanc.

Rhwydwaith Trefnwyr Gwirfoddolwyr Gwynedd

'Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith'

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Rhwydwaith yn Adeilad Technium Cast, Parc Menai dydd Mercher **14eg o Fai am 1.30pm.**

Bydd Mark Restall, cyn-bennaeth gwybodaeth gyda 'Volunteering England' yn siarad am 'Gwirfoddolwyr a'r Gyfraith'.

Tâl mynediad - **£10** y pen.

Croeso cynnes i bawb.

Wythnos Gwirfoddolwyr
1af - 7fed o Fehefin 2008

Dim ond gair i atgoffa pawb fod **'Wythnos y Gwirfoddolwyr'** yn nesau, ac ei bod yn ddigwyddiad cenedlaethol i ddathlu cyfraniad gwirfoddolwyr a gwirfoddoli sy'n cael ei gynnal yn ystod yr wythnos gyntaf o Fehefin bob blwyddyn. Cynhaliwyd Wythnos y Gwirfoddolwyr am y tro cyntaf ym 1985, ac mae'n chwarae rhan bwysig trwy godi proffil gwirfoddoli yn ogystal ag annog eraill i gymryd rhan.

Trefniadau Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd - crynodeb o raglen yr Wythnos:

Stondin Deithiol - yn codi ymwybyddiaeth ac yn rhannu gwybodaeth am wirfoddoli:

Mawrth 3ydd:- Bangor ● **Mercher 4ydd:- Pwllheli**
Iau 5ed:- Porthmadog ● **Gwener 6ed:- Dolgellau**

Te Dathlu a Diolch - dydd Llun, 9fed, yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog.

Edrychwn ymlaen am eich cwmni yn rhai o'r digwyddiadau - bydd manylion llawn a gwahoddiadau yn cael eu hanfon atoch ym mis Mai.

Cyfle Newydd
HAFAL, PORTHMADOG

Angen gwirfoddolwr i arwain y grŵp Coginio.

Mae 3 - 5 o bobl yn cyfarfod ar ddydd Llun o 10am - 2pm yn Hafal ac yn trefnu a choginio pryd bwyd. Bydd y gwirfoddolwr yn trefnu gyda'r grŵp fwydlen syml, cyllido, siopa, coginio a bwyta! Mae'n grŵp cyfeillgar a hwyliog ac yn gyfle diddorol.

Cymerwch gip olwg ar wefan **www.mantellgwynedd.com** am y cyfleoedd gwirfoddoli diweddaraf.

Am ragor o wybodaeth, neu gyngor ar unrhyw fater yn ymwneud â gwirfoddoli, cysylltwch â:
Ffôn: 01286 672626 / 01341 422575 neu e-bost: gwirfoddoli@mantellgwynedd.com

Cronfa Beilot

'Ewch Amdani'

Dim ond nodyn i'ch atgoffa o gronfa beilot newydd dan ofal Mantell Gwynedd sef 'Ewch Amdani'. Mae'r gronfa ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar draws Gwynedd sydd ddim â chyswllt uniongyrchol â chwaraeon er mwyn annog gweithgarwch corfforol cymunedol o'r newydd i hybu a gwella ffitrwydd a iechyd pobl. Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar **01286 672626** neu **delyth@mantellgwynedd.com**

Hefyd, os yw eich cynllun yn bod yn barod, neu os ydych chi'n ysgol, mae cynllun tebyg gan **Kellogs** o'r enw '**Active Living Fund'**. Mae gwybodaeth ar eu gwefan **www.kellogs.co.uk/company** neu ffoniwch **0161 214 0940**.

'Galluogi Gwynedd'

2008-2011

Mae Mantell Gwynedd wedi sicrhau cymorth ariannol trwy arian rhaglen CFAP y Cynulliad i gael cronfa Galluogi Gwynedd am y dair mlynedd nesaf (2008-2011). Bydd £90,000 ar gael bob blwyddyn am y dair mlynedd nesaf ar gyfer grwpiau gwirfoddol a chymunedol ar hyd a lled Gwynedd.

Bydd un newid mawr i'r gronfa sef - arian cyfalaf yn unig fydd ar gael. Bydd grwpiau yn gallu ymgeisio am hyd at fwyafswm o **£5,000** i gefnogi gwaith cyfalaf bach. Dyddiad cau cyntaf ar gyfer 2008 yw **dydd Llun, 30ain, Mehefin, 2008 CYN 5.00 y.p.**

Am fwy o fanylion cysylltwch â Delyth Vaughan ar **01286 672 626** neu e-bosdiwch **delyth@mantellgwynedd.com**



GRANT DAN ARWEINIAD POBL IFANC

Mae Canolfan Gwirfoddoli Gwynedd wedi derbyn £4000 o grant i'w rannu i grwpiau ar gyfer creu rhagor o gyfleoedd gwirfoddoli i bobl ifanc.

Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r Ganolfan Wirfoddoli neu cysylltwch yn uniongyrchol â Mirain Roberts ar 01286 672 626 neu mirainroberts@mantellgwynedd.com.

Comic Relief

Mae grantiau ar gael i gyrff gwirfoddol a grwpiau hunangymorth gyda chyfansoddiad.

Mae tair rhaglen o Grantiau Bach (o dan £5,000):
Ar gael dim ond i gyrff sydd â throsiant o lai na £150,000 y flwyddyn gyda blaenoriaeth i grwpiau sydd â throsiant o lai na £50,000 y flwyddyn. **Does dim dyddiad cau ffurfiol ar gyfer y grantiau bach ond rhoddir blaenoriaeth i'r canlynol:**

1. **Pobl Hŷn**
   Yn cefnogi grwpiau a gweithgareddau sy'n helpu i leihau arwahanrwydd, yn arbennig ymhlith pobl hŷn hawdd eu niweidio ac y rhai dros 75 oed.
2. **Iechyd Meddwl**
   Yn helpu pobl gyda phroblemau iechyd meddwl i ddod at ei gilydd i leisio'u barn ar wasanaethau a pholisïau sy'n effeithio ar eu bywydau. Yn cefnogi grwpiau bach o dan arweiniad y defnyddwyr i ymgyrchu am newid.
3. **Cymunedau Difreintiedig**
   Mae'r rhaglen hon yn ariannu grwpiau cymunedol (e.e. ar ystâd dai, mewn cymdogaeth neu bentref) i newid pethau am y gwell. Rhaid bod y grŵp yn cynnwys ac yn cael ei redeg gan bobl leol mewn ardal dlawd a difreintiedig.

Edrychwch ar: **www.comicrelief.co./ukgrants** am ragor o wybodaeth, canllawiau a phecyn cais. **Ffôn: 0207 820 5555**